

# Rhwydwaith Hybiau Grwpiau Cymunedol Ynys Môn



Mae llawer o gyngor a ffynonellau gwybodaeth ar gael, ac mae'n gallu bod yn gymhleth iawn.

Dyma grynodeb o'r **PRIF** gymorth ariannol, ffynonellau gwybodaeth a'r cymorth diweddaraf sydd ar gael (Hydref 2022).



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

Rydym eisiau cadw cyfeirlyfr cyfredol o unrhyw gymorth / cefnogaeth bellach sydd ar gael, felly os ydych yn ymwybodol o wasanaeth neu sefydliad a allai helpu pobl leol nad ydynt wedi'u rhestru yma, anfonwch y wybodaeth os gwelwch yn dda at [financialinclusion@ynysmon.llyw.cymru](mailto:financialinclusion@ynysmon.llyw.cymru)

Mae'r crynodeb hwn hefyd ar gael ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn

[www.ynysmon.llyw.cymru](http://www.ynysmon.llyw.cymru)

# Pethau pwysig i'w cofio:



- Dywedwch wrth bobl am gysylltu â'u cyflenwyr / sefydliadau y mae arnynt arian iddynt i drafod eu pryderon. Mae dyletswydd ar y cyrff hynny i ddarparu mesurau i'w helpu.
- Atgoffwch pobl i wneud yn siŵr eu bod yn hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w derbyn **Cyfrifianellau budd-daliadau GOV.UK** ([www.gov.uk](http://www.gov.uk)) neu **Gyfrifiannell Budd-daliadau Turn2us**
- Mae llawer o'r cymorth ariannol sydd ar gael ar hyn o bryd yn cael ei dalu'n awtomatig **OS YDYCH** yn hawlio'r budd-dal perthnasol, ac mae hawlio'r budd-dal cywir yn eich gwneud chi'n gymwys i gael cymorth ariannol pellach.
- Mae cymorth ar gael i'ch helpu i ddeall yr hyn y mae gennych hawl i'w dderbyn a sut i'w hawlio **Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi | LLYW. CYMRU 0808 250 5700.**

Anogwch pobl i gysylltu â **Chyngor ar Bopeth Ynys Môn**  
<https://www.citizensadvice.org.uk/local/ynys-mon/> neu  
Stepchange i gael cyngor ar ddyledion. <https://www.stepchange.org/>

- Os ydych chi'n poeni am roi'r wybodaeth anghywir, cofiwch gyfeirio pobl at gyngor annibynnol, diogel sydd ar gael yn rhad ac am ddim

**Canolfan J.E. O'Toole** (Uned Hawliau Lles yr Awdurdod)  
**01407 760208 | [otoole@anglesey.gov.cymru](mailto:otoole@anglesey.gov.cymru)**

**Cyngor ar Bopeth | 0808 278 7932**

**Advicelink Cymru | 0808 250 5700**

- Gall Tîm Cynhwysiant Ariannol Cyngor Sir Ynys Môn gynnig cymorth a chanllawiau ynghylch biliau cyfleustodau a chymorth ariannol a allai fod ar gael yn ogystal â chymorth ar reoli arian/cyllideb.

<https://www.ynysmon.gov.wales/en/Residents/Benefits-and-grants/Financial-inclusion.aspx>





# Help gyda chostiau tanwydd yn y cartref

## Beth sydd ar gael ar hyn o bryd?

**£400 oddi ar y bil tanwydd** - bydd yn cael ei dalu / ei weinyddu gan y cyflenwr.

**NID OES ANGEN** gwneud cais amdano (Cynllun Cymorth Biliau Ynni)

**Taliadau costau byw ychwanegol i RAI grwpiau o bobl;**

£650 Taliad costau byw i rai ar fudd-dal incwm isel neu gredydau treth

£300 Taliad costau byw i bensiynwyr

£150 Taliadau costau byw i'r anabl

**NI FYDD ANGEN** i chi wneud cais am y rhain, byddant yn cael eu talu ochr yn ochr â'ch taliad budd-dal / credyd treth

**Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes**

£150 i'w dalu / ei weinyddu gan y cyflenwr fel disgownt ar y bil. Bydd pobl gymwys yn derbyn llythyr ym mis Tachwedd / Rhagfyr 2022 i roi gwybod iddyn nhw amdano.

**NID OES ANGEN** gwneud cais.

**Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes: Trosolwg** - GOV.UK ([www.gov.uk](http://www.gov.uk))

**Cynllun Cymorth Costau Byw**

**Cynllun Cymorth Dewisol Costau Byw** ([gov.wales](http://gov.wales))

Bydd rhai unigolion a gafodd eu heithrio o'r taliadau a wnaed yn awtomatig i'r sawl a oedd wedi derbyn Gostyngiad Treth Gyngor yn gynharach yn 2022 yn derbyn taliad awtomatig o £150 - edrychwch ar y wefan am fanylion llawn.

### Taliad Tanwydd Gaeaf

Os cawsoch chi eich geni ar neu cyn 25 Medi 1956, gallech gael rhwng £250 a £600 i'ch helpu i dalu eich biliau gwresogi. 'Taliad Tanwydd Gaeaf' yw enw'r cynllun hwn. Mae'r swm a gewch yn cynnwys 'Taliad Costau Byw i Bensiynwyr'. Mae hyn rhwng £150 a £300. Dim ond yn ystod gaeaf 2022 i 2023 fyddwch chi'n derbyn y swm ychwanegol hwn. Mae hyn yn ychwanegol at unrhyw **Taliad Costau Byw** rydych chi'n ei gael gyda'ch budd-dal neu gredydau treth. Bydd y rhan fwyaf o'r taliadau'n cael eu gwneud yn awtomatig ym mis Tachwedd neu fis Rhagfyr. Fe gewch chi lythyr yn dweud wrthych faint y byddwch chi'n ei gael.

Os na fyddwch yn derbyn llythyr neu os nad yw'r arian wedi cael ei dalu i'ch cyfrif erbyn 13 Ionawr 2023, cysylltwch â'r **Ganolfan Taliadau Tanwydd Gaeaf**.



### Taliad Tywydd Oer - £25 yr wythnos

Efallai y byddwch yn gymwys i gael Taliad Tywydd Oer os ydych yn cael budd-daliadau penodol neu Gymorth ar gyfer Llog Morgais.

Taliad Tywydd Oer: Trosolwg - GOV.UK ([www.gov.uk](http://www.gov.uk))

# Cymorth ariannol arall sydd ar gael ond Y MAE'N RHAID GWNEUD CAIS AMDANO:

## Cam Dewisol y Cynllun Cymorth Costau Byw - Taliadau Caledi/ Argyfwng

Gall ceisiadau gael eu gwneud gan unigolion mewn trafferth y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'r argyfwng Costau Byw. Ceir manylion am y meini prawf, sut i wneud cais a'r polisi yn y Cynllun Cymorth Costau Byw (LLYW.Cymru)

## Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf - taliad unwaith ac am byth o £200

### Rhaid cyflwyno cais.

Dylai unigolion sy'n derbyn Gostyngiad Treth Cyngor dderbyn llythyr gyda rhif Cyfeirnod unigryw sy'n eu galluogi i wneud hawliad ar-lein, dylai eraill sicio'r meini prawf cymhwysedd a chyflwyno cais, mae manylion llawn ar gael yng Nghynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf (llyw.cymru)

Bydd cymorth cyfyngedig ar gael drwy Dîm Cynhwysiant Ariannol CSYM ar gyfer costau tanwydd nad yw'n cael ei gyflenwi ar y grid. Nid yw hon yn gronfa fydd yn cael ei hadnewyddu, felly ni fydd ychwaneg o arian ar gael unwaith y daw'r cymorth ariannol cyfredol i ben.

<https://www.anglesey.gov.wales/en/Residents/Benefits-and-grants/Financial-inclusion.aspx>

## Taliadau neu gyngor i helpu pan fydd rhywun mewn argyfwng, er enghraifft:

Cronfa Cymorth Dewisol – EAP - Cronfa Cymorth Dewisol (DAF) | LLYW. CYMRU

Taleb tanwydd argyfwng gwerth £30-£49 i'r rhai sy'n defnyddio mesurydd / yn 'talw wrth ddefnyddio', neu sy'n talu am danwydd oddi-ar-y-grid drwy'r Sefydliad Banc Tanwydd. Gweinyddir y cynllun ar Ynys Môn gan Fanc Bwyd Ynys Môn – ac mae ar gael i unigolion mewn argyfwng yn unig sydd wedi cael eu cyfeirio at fanc bwyd. Mae cymorth hefydd ar gael gan Gyngorwyr Ynni CAB.

Dylid cynghori cwsmeriaid i gysylltu â'u cyflenwyr ynni os ydynt mewn argyfwng ac ar fin cael eu datgysylltu neu redeg allan o gredyd brys. O bryd i'w gilydd, bydd cyflenwyr yn trefnu taliadau ychwanegol ('top up') brys ond fel arfer bydd rhaid i gwsmeriaid eu had-dalu fesul dipyn o unrhyw daliadau ychwanegol yn y dyfodol.



---

## Y MAE'N RHAID GWNEUD CAIS AMDANO

---

# Beth arall fedrwch chi ei wneud?

Helpu pobl i gofrestru am Wasanaeth Blaenoriaeth gyda chyflenwyr ynni os ydynt yn breswylwyr sydd ag anabledd, cyflwr iechyd, yn bensiynwr, gyda phlentyn dan 5 oed neu'n feichiog.

**Helpu pobl i wneud eu cartrefi mor gynnes â phosibl** - newidiadau bach i'r defnydd o ynni, lleihau drafftiau, inswleiddio a mesurau eraill fel paneli solar (drwy gynlluniau fel ECO a NYTH) - am wybodaeth bellach gweler

<https://www.anglesey.gov.wales/en/Residents/Housing/Private-housing/Nest-a-scheme-to-make-your-home-warmer-and-more-energy-efficient.aspx>

Neu cysylltwch â Nyth/Nest ar Rhadffôn 0808 808 2244

## Deall eich biliau

er enghraifft, gosod mesurydd clyfar yn y cartref - gofynnwch i'ch cyflenwr ynni.

## Deall Tariffau

Defnyddio Cynllun Wardeiniaid Ynni Ynys Môn (this is available for Isle of Anglesey County Council tenants only)

<https://www.grwpcynefin.org/en/more-than-housing/protect-the-environment>

**Mae mwy o fanylion yn y canllaw hwn gan CAB a Ofgem**

Help with bills England and Wales August 2022 (ofgem.gov.uk)

# Help gyda biliau eraill

## Talu eich rhent

**Hawlio Budd-daliadau Tai a/neu Ostyngiad Treth Gyngor ar-lein yn:**

<https://www.anglesey.gov.wales/en/Residents/Benefits-and-grants/Housing-benefits/Housing-benefit-and-council-tax-reduction-online-application.aspx>

**Hawlio Taliadau Tai Dewisol (DHP) – ffurflen y gellir ei lawrlwytho ar gael yn:**

<https://www.anglesey.gov.wales/en/Residents/Benefits-and-grants/Housing-benefits/Discretionary-Housing-Payments-and-Discretionary-Assistance-Fund.aspx>

**Landlordiaid Tai Cymdeithasol:**

Cyngor Sir Ynys Môn - 01248 752200

Clwyd Alyn - 0800 183 5757

Grŵp Cynefin - 0300 111 2122

Tai Gogledd Cymru - 01492 572727

**Yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd?**

Cysylltwch â Chyngor Sir Ynys Môn sydd hefyd yn gallu rhoi cyngor a chymorth i atal digartrefedd cyngor digartrefedd (gov.wales) neu ffonio 01248 752200

**Shelter Cymru** - Am gymorth a chyngor ynghylch tai, ffoniwch llinell gymorth frys Shelter Cymru ar 08000 495 495

(9.30yb – 12.30yp Dydd Llun i Ddydd Gwener)

Cysylltu â ni - Shelter Cymru



# Help Arall

## Prydau ysgol am ddim

<https://www.anglesey.gov.wales/en/Residents/Schools-and-learning/Financial-Support/Free-school-meals.aspx>

## Grant i ddisgyblion ysgol i helpu gyda chostau ysgol

<https://www.anglesey.gov.wales/en/Residents/Benefits-and-grants/School-uniform-and-pupil-development-grant.aspx>

## Taliadau gofal plant

<https://www.anglesey.gov.wales/en/Residents/Children-and-families/Childcare-for-3-and-4-year-olds.aspx>

## Ffonau a'r Rhyngrwyd (Tariffau cymdeithasol gan gyflenwyr ar gyfer pobl sy'n derbyn budd-daliadau neu gredyd treth / pensiwn)

Band eang a phhecynnau ffôn rhatach - Ofcom

Dŵr Tariff HelpU | Dŵr Cymru Welsh Water (dwrcymru.com)

## Mynediad at fwyd

<https://anglesey.foodbank.org.uk/>

## Bwyd Da Môn

<https://www.bwyd-da-mon.org.uk/>

